# Cymeriadau Difyr



| Llyfr: | **Poli Pump (5)** |
|---|---|
| Adnoddau: | • Rhif 5 wedi'i argraffu neu ei dynnu â llaw (mawr a lliwgar ar gyfer gwelededd).<br>• Gwrthrychau i'w cyfrif (e.e. anifeiliaid tegan, blociau, botymau, neu bompom).<br>• Toriadau siâp llaw neu defnyddiwch y dwylo! |
| Camau: | Nod: Helpu'r dysgwyr i ddeall ac ymarfer cyfrif i 5 gan ddefnyddio dysgu ymarferol sy'n seiliedig ar symud.<br><br>Cam 1 - Cyflwyniad i rif 5: Dangoswch y rhif 5 i'r plant a thrafodwch ble rydyn ni'n gweld 5 mewn bywyd bob dydd (e.e. 5 bys ar un llaw, 5 petal ar rai blodau, ac ati).<br><br>Cam 2 - Gwrthrychau Cyfrif: Rhowch bentwr o 5 gwrthrych i'r plant a'u hannog i'w cyfrif yn uchel wrth osod pob gwrthrych mewn llinell. Gofynnwch gwestiynau fel 'Beth sy'n digwydd os ydyn ni'n ychwanegu un arall? Faint sydd gennyn ni nawr?'<br><br>Cam 3 - Gêm Weithredu Pawen lawen (Pump Uchel): Parwch y plant neu eu rhoi i weithio mewn grwpiau. Ymarferwch roi 5 pawen lawen (pump uchel), gan gyfrif yn uchel ar gyfer pob un. Gwnewch hyn yn weithgaredd egnïol ac yn hwyl. Ychwanegwch amrywiadau, e.e. 'Gadewch i ni wneud pawen lawen (pump uchel) tawel!' neu 'Pawen lawen (pump uchel) cyflym!' i gadw diddordeb. |
| Cwestiynu: | - Allwch chi ddangos 5 i fi gyda'ch bysedd?<br>- Beth os cymerwn ni un i ffwrdd o 5 - faint sydd ar ôl?<br>- Allwch chi feddwl am unrhyw beth arall sy'n dod mewn grŵp o 5? |
| Beth nesaf? | Celf Greadigol (dewisol):<br>Dosbarthwch bapur a gofynnwch i'r plant olrhain eu dwylo. Y tu mewn i'r amlinelliad, gallan nhw dynnu llun neu ludo 5 gwrthrych bach (e.e., sticeri, botymau) ar bob bys i atgyfnerthu'r cysyniad o 5.<br><br>Canu Cân Gyfrif (dewisol): Ymgorfforwch gân syml sy'n cynnwys y rhif 5 (e.e. rap Poli Pump), i ychwanegu elfen gerddorol at y dysgu. |

